



Adroddiad Arolwg y Praesept 2021-2022

Arolwg Praesept 2021-2022

Roedd Arolwg Ymgynghorol y Praesept yn agored rhwng 30 Tachwedd 2020 a 15 Ionawr 2021. Roedd cyfanswm o 426 o ymatebion i'r arolwg gyda 21 yn Gymraeg a 405 yn Saesneg. Mae'r cyfanswm nifer 12% yn is nag ymatebion llynedd sef 486. Credir bod y gostyngiad mewn ymatebion i'r arolwg eleni oherwydd colli'r cynllun Cyswllt Gwylio Ar-lein (OWL) a oedd yn hanfodol wrth ymestyn at aelodau o'r cyhoedd a'u hannog nhw i ymateb.

Mae pandemig Covid-19 hefyd wedi chwarae rhan mewn gostwng yr ymatebion oherwydd diffyg ymgysylltu wyneb yn wyneb. Byddai'r Comisiynydd a'i dîm fel arfer yn hyrwyddo'r arolwg mewn digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus neu'n mynychu cyfarfodydd gyda chymunedau anodd eu cyrraedd, yn enwedig y genhedlaeth hŷn. Rhoddwyd copïau papur o'r arolwg yn y cyfarfodydd hyn fel arfer gydag amlenni wedi'u talu amdanynt yn barod er mwyn eu dychwelyd. Er bod yr holl ohebiaeth yn rhoi'r opsiwn i unigolion ofyn am gopi papur, ni chafwyd ceisiadau. Yn yr un modd ni dderbyniwyd ymatebion am fersiwn Darllen Hawdd o'r arolwg er i gopïau a dolenni gael eu rhannu gan Uned Amrywiaeth Heddlu Gogledd Cymru ymysg holl randdeiliaid hysbys.

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno gyda fy mlaenoriaethau presennol?

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod y blaenoriaethau presennol yn parhau i fod yn berthnasol. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y blaenoriaethau'n berthnasol i bawb gyda phopeth heblaw Lleihau Camfanteisio Troseddol a Caethwasiaeth Fodern yn derbyn cytundeb dros 90%.


Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r ymatebion. Derbyniodd Caethwasiaeth Fodern y mwyaf o ymatebion 'ddim yn gwybod' sy'n awgrymu bod angen codi mwy o ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau bod gan yr heddlu ddealltwriaeth lawn o Gaethwasiaeth Fodern a sut mae'n effeithio pobl Gogledd Cymru.

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn gwybod
Lleihau Camfanteisio Troseddol	89%	7%	4%
Cam-drin Domestig	90%	5%	4%
Cam-drin Rhywiol	92%	4%	4%
Caethwasiaeth Fodern	74%	14%	12%
Troseddau Trefnedig	95%	3%	2%
Cyflawni Cymdogaethau Diogelach	94%	4%	2%

Cwestiwn 2 – Pa mor dda yw'r heddlu yn eich ardal chi?

Gofynnodd yr ail gwestiwn yn yr arolwg i ymatebwyr am eu hadborth ynglŷn â'r heddlu yn eu hardal. Fel y gwelir yn y siart gylch isod, teimlodd 45% o ymatebwyr bod yr heddlu yn eu hardal yn gwneud gwaith gwych neu dda. Rhoddodd nifer enghreifftiau o'r effaith cadarnhaol y mae'r heddlu'n ei gael ar eu cymuned leol. Teimlodd un rhan o bump (20%) bod yr heddlu'n eu hardal yn gwneud gwaith gwael neu wael iawn yn sgil profiad personol neu ddiffyg amlygrwydd.

Pa mor dda yw'r heddlu yn eich ardal chi?



Gwnaeth y cwestiwn testun agored adael i ymatebwyr egluro eu rhesymau am y radd a roddwyd gyda 55% yn gofyn am gynnydd mewn amlygrwydd a swyddogion heddlu. Rwy'n deall y gall plismona amlwg roi tawelwch meddwl i'n cymunedau. Fodd bynnag, mae trosedd yn parhau i newid ac ni wnaiff swyddog ar batrôl atal y troseddau cudd fel cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth fodern a thrais domestig rhag digwydd. Mae esblygiad trosedd wedi gorfodi heddluoedd i addasu eu dulliau plismona i sicrhau eu bod yn parhau'n effeithlon ac effeithiol. O ran cynnydd mewn swyddogion mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i recriwtio swyddogion yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU am Ymgyrch 'Uplift' ym mis Medi 2019.

Cwestiwn 4 – A ydych yn fodlon gyda'r ffordd rwyf yn ymgynghori â chi?

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r arolwg yn fodlon gyda'r ffordd y cawsant eu hymgyngori. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r ymatebion. O fewn y cwestiwn testun agored gwnaeth nifer o ymatebwyr godi eu pryderon ynghylch hygyrchedd arolwg ar-lein. Gwnaed ymgeision i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at yr arolwg gan gynnwys copïau papur ac arolygon Darllen Hawdd. Oherwydd yr hinsawdd sydd ohoni, nid oedd yn bosib cynnal ymgynghoriad wyneb yn wyneb eleni.

	Cyfanswm
Ydw	279 (73%)
Nac ydw	57 (15%)
Ddim yn gwybod	48 (12%)

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n talu'r Dreth Gyngor neu Ardrethi Busnes?


Cafodd y cwestiwn hwn ei gynnwys i nodi'r nifer o dalwyr y Dreth Gyngor ac Ardrethi Busnes a oedd yn ateb yr arolwg. Fel y gwelir yn y tabl isod roedd dros 92% o ymatebwyr yn talu'r Dreth Gyngor o'i gymharu â dim ond 3% o dalwyr Ardrethi Busnes.

	%
Treth Gyngor	92
Ardrethi Busnes	5
Dim un o'r Uchod	3

Cwestiwn 6 – Faint o Dreth Gyngor ychwanegol a fyddech yn fodlon ei thalu bob wythnos?

Holodd y chweched cwestiwn i ymatebwyr faint o Dreth Gyngor ychwanegol y byddent yn fodlon ei thalu bob wythnos a'r effaith fyddai bob dewis yn ei gael ar y gwasanaeth. Fel y gwelir yn y graff isod dewisodd dros 35% yr opsiwn i gynyddu'r praesept 27 ceiniog yr wythnos. Ar y cyfan byddai 55% o'r ymatebwyr yn barod i dalu 26 ceiniog yr wythnos yn y Dreth Gyngor.

Faint o Dreth Gyngor ychwanegol fyddech yn fodlon ei thalu bob wythnos?




Cwestiwn 7 – Pe bawn i'n codi'r Dreth Gyngor fwy na 27 ceiniog yr wythnos, ar beth ddylwn i wario'r arian hwn?

Rhoddwyd tri dewis ar ddeg i ymatebwyr a oedd yn cynnwys amrywiaeth o feysydd plismona fel plismona ffyrdd, trais domestig a chymdogaethau diogelach. Yr atebion mwyaf poblogaidd i'r cwestiwn hwn oedd Cymdogaethau Diogelach (37%), Trosedd Trefnedig (15%) a Throsedd Cefn Gwlad (11%).

Cwestiwn 8 – Ym mha sir ydych yn byw ynddi?

Mae'r siart gylch isod y dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r arolwg yn byw yn siroedd Wrecsam, y Fflint a Dinbych. Mae hyn gystal ag ymatebion o flynyddoedd blaenorol lle'r oedd y nifer o ymatebwyr o Fôn a Gwynedd yn sylweddol is nag ardaloedd eraill.

Ym mha sir yr ydych yn byw?



Cwestiwn 9 – Sut wnaethoch chi glywed am yr arolwg?

Holodd y cwestiwn olaf i ymatebwyr am sut wnaethant glywed am yr arolwg. Cafodd 45% wybod am yr arolwg drwy e-bost. Anfonwyd yr arolwg i gronfa ddata cysylltiadau Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyda chais i anfon yr e-bost ymlaen at restr cysylltiadau'r derbynwyr. Anfonwyd cyhoeddiadau rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol ac roedd stori newyddion am yr arolwg praesept mewn nifer o bapurau newydd lleol ledled Gogledd Cymru.

Sut wnaethoch chi glywed am yr arolwg hwn?

